

**2016 Rhif 1015 (Cy. 244)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**Gorchymyn Cefnffordd yr A494  
(Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol  
Rhuthun, Sir Ddinbych) (Terfyn  
Cyflymder 20 mya Rhan-amser)  
2016**

*Gwnaed* 18 Hydref 2016

*Yn dod i rym* 24 Hydref 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (“Deddf 1984”), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Hydref 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Rhuthun, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2016.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf 1984(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o lluoedd cartref y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoeedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 117 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt cyffordd y fynedfa i gerbydau i Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun hyd at bwynt 17.5 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd â Bryn Eryl.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

18 Hydref 2016

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Trosedd a Llysoedd 2013 (p. 22), (mae'r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i'r darpariaethau arbed a throsiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Trosedd a Llysoedd 2013 (p. 22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20)).